# Rhowch gymorth i ni lunio dyfodol Llyfrgelloedd a Chanolfannau Adnoddau Cymunedol Wrecsam

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Faint o lyfrgelloedd a chanolfannau adnoddau sydd gennym? | 3 |
| Pam fod angen i bethau newid? | 3 |
| Beth yw ein gweledigaeth? | 4 |
| Ble mae'r llyfrgelloedd a'r canolfannau? | 4 |
| Beth yr ydym yn ei gynnig ar gyfer llyfrgelloedd? | 5 |
| Beth yr ydym yn ei gynnig ar gyfer canolfannau adnoddau? | 5 |
| Unrhyw beth arall? | 6 |
| Faint fyddai hyn yn ei arbed? | 6 |
| A oes rhaid i ni ddarparu llyfrgelloedd a chanolfannau adnoddau? | 6 |
| Yr Iaith Cymraeg (Cymru) Mesur 2011 | 7 |
| Sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn | 7 |
| Beth fydd yn digwydd nesaf? | 8 |

Cyf: WCBC/2024/LF808

**Fel y mwyafrif o Gynghorau eraill, mae Wrecsam yn wynebu pwysau ariannol sylweddol, ac mae cael dau ben llinyn ynghyd yn mynd yn anoddach.**

**Mae'n rhaid i ni wneud mwy gyda llai yn dilyn dros ddegawd o ostyngiad mewn cyllid, costau uwch, chwyddiant, cynnydd mewn cyfraddau llog, a mwy o breswylwyr sydd angen ein cefnogaeth.**

**Felly mae'n rhaid i ni ailfeddwl y ffordd sut yr ydym yn gwneud pethau, ac mae hyn yn cynnwys edrych ar ein gwasanaeth llyfrgelloedd a chanolfannau adnoddau cymunedol…**

## Faint o lyfrgelloedd a chanolfannau adnoddau sydd gennym?

Mae Cyngor Wrecsam yn rheoli 10 llyfrgell gangen, llyfrgell cyswllt cartref a llyfrgell Pop Up, a phump o ganolfannau adnoddau cymunedol.

Mae ein gwasanaeth llyfrgell yn darparu llyfrau, adnoddau digidol, gofod astudio, a mynediad at grwpiau a gweithgareddau cymdeithasol ar gyfer pobl o bob oed.

Mae ein canolfannau adnoddau yn darparu lle ar gyfer grwpiau cymunedol lleol a gweithgareddau.

Rydym yn cydnabod bod llyfrgelloedd a chanolfannau yn gwneud cyfraniad sylweddol at les y rhai sy'n eu defnyddio.

## Pam fod angen i bethau newid?

Fel Cyngor, rydym yn wynebu bwlch cyllidebol o oddeutu £28 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf. Mae angen i ni ailystyried y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu a sut yr ydym yn eu darparu er mwyn diwallu'r pwysau ar y gyllideb a sicrhau gwydnwch ariannol.

O ganlyniad, mae'n rhaid i ni gyflawni arbedion gydag isafswm o £185,000 o'n cyllideb weithredol ar gyfer llyfrgelloedd a chanolfannau.

Ni wnaed unrhyw benderfyniad o ran sut yr ydym am gyflawni'r arbedion hyn, ond mae gennym ystod o ddewisiadau yr ydym am geisio barn pobl arnynt.

Felly, cymerwch ran yn yr ymgynhoriaf hwn os gwelwch yn dda, a helpwch i lywio ein camau nesa.

## Beth yw ein gweledigaeth?

Rydym eisiau gweithio gyda phobl leol i ddeall beth maent yn ei ddisgwyl o ran gwasanaeth llyfrgell a channolfanau adnoddau cymunedol.

Rydym hefyd eisiau grymuso sefydliadau a chymunedau a allai fod â diddordeb mewn cynorthwyo i redeg rhai o'r gwasanaethau hyn.

Rydym hefyd am **sicrhau:**

- Mae llyfrgelloedd yn parhau i gynnig mynediad i lyfrau a denyddiau dysgu;
- Nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg (mae gennym ddyletswydd o dan Safonau'r Gymraeg);
- Bod llyfrgelloedd a chanolfannau'n cynnig cysylltiad da i'r rhyngrwyd;
- Eu bod yn darparu mannau dysgu mewn adeiladau ag adnoddau addas;
- Eu bod yn gymorth i ddarparu canolfannau clyd i bawb - yn enwedig dros fisoedd y gaeaf; a
- Bod gwasanaethau'n hygyrch i bawb, o safbwynt lleoliad ffisegol ac ar-lein.

## Ble mae'r llyfrgelloedd a'r canolfannau?

Mae ein 10 llyfrgell gangen wedi'u lleoli yn:

- Brynteg, tir yn eiddo i'r Cyngor Cymuned, gyda chytundeb ar waith i ddarparu llyfrgell gyhoeddus
- Y Waun
- Gwersyllt
- Llai
- Rhiwabon
- Cefn Mawr
- Coedpoeth
- Owrtyn, wedi'i leoli yn y Cocoa Rooms, sy'n adeilad cymunedol
- Y Rhos
- Wrecsam

Hefyd mae gennym ein llyfrgell Cyswllt Cartref a llyfrgelloedd Pop Up, sy'n ein cynorthwyo i ddarparu llyfrau i bobl yn eu cartrefi eu hunain ac mewn cymunedau sydd heb lyfrgell gangen.

Lleoliad ein pum canolfan adnoddau:

- Acton;
- Brynteg, y tir yn eiddo i'r Cyngor Cymuned
- Gwersyllt;
- Llai (yn cynnwys Llecyn Gemau Amlddefnydd)
- Plas Pentwyn (Coedpoeth)

## Beth yr ydym yn ei gynnig ar gyfer llyfrgelloedd?

- Ar hyn o bryd, mae gennym feddwl agored o ran sut i gyflawni'r newidiadau gofynnol i ddiwallu ein targedau o ran arbedion. Ond, nid yw gwneud dim yn opsiwn.
- Byddwn yn ceisio cadw cynifer o lyfrgelloedd ag y gallwn, gan gadw llyfrgell Wrecsam fel isafswm, ond efallai y bydd yn rhaid cau rhai neu leihau'r oriau agor a / neu fod trydydd parti neu Gyngor Cymuned yn eu rhedeg, megis Brynteg.
- Er mwyn hwyluso hyn, byddwn yn archwilio'r cyfleoedd i drosglwyddo asedau cymunedol a chydleoli gwasanaethau a chyfleusterau, megis y canolfannau adnoddau cymunedol.
- Byddwn hefyd yn gweithio gyda sefydliadau neu grwpiau i sefydlu rhwydwaith o wirfoddolwyr i ddarparu'r gwasanaeth Cyswllt Cartref.

## Beth yr ydym yn ei gynnig ar gyfer canolfannau adnoddau?

- Byddwn yn ystyried y canolfannau adnoddau cymunedol yr ydym yn eu gweithredu ac yn ystyried a oes modd cydleoli gyda gwasanaethau eraill; a
- Byddwn yn ystyried a yw'n ddichonadwy trosglwyddo unrhyw un o'n canolfannau adnoddau cymunedol i'r gymuned drwy drosglwyddiad asedau cymunedol; a
- Byddwn yn ystyried weithio gyda thrydydd partio neu'r cyngor cymunedol i gadw canolfan adnoddau cymunedol, ond effalai bydd yn rhaid i rai gau neu lleihau oriau agor.

## Unrhyw beth arall?

Yn ogystal â'r mesurau hyn, rydym yn cynnig:

- Datgarboneiddio ein llyfrgelloedd, canolfannau a cherbydau fflyd drwy fuddsoddiad effeithlonrwydd ynni;
- Datblygu datrysiadau digidol sy'n gwella'r profiad i gwsmeriaid;
- Adolygu rhent a chostau gwasanaeth a delir gan sefydliadau a busnesau sydd wedi'u lleoli yn ein llyfrgelloedd a'n canolfannau;
- Darparu mwy o gyfleoedd gwirfoddoli er mwyn galluogi pobl leol gymryd rhan mewn helpu i rhedeg lyfrgelloedd a chanolfannau.

## Faint fyddai hyn yn ei arbed?

Trwy leihau costau gweithredu, staffio a chynnal a chadw, byddai'r cynigion hyn yn arbed £185,000 o leiaf.

Byddai'r ffigwr terfynol yn dibynnu ar sawl ffactor, gan gynnwys awgrymiadau pellach gan weithwyr, preswylwyr, cymunedau a phartïon â diddordeb a mesurau 'ail-lunio' eraill sy'n cael eu mabwysiadu gan y Cyngor.

Byddai'r arbedion a amcangyfrifwyd yn deillio o leihau costau gweithredu, staffio a chynnal a chadw, er efallai y bydd angen buddsoddiad byr dymor ymlaen llaw ar gyfer rhai o'r ymagweddau newydd hyn.

## A oes rhaid i ni ddarparu llyfrgelloedd a chanolfannau adnoddau?

Mae gan Gynghorau ddyletswydd statudol i ddarparu ystod o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau llyfrgell.

Mae gennym ddyletswydd hefyd o dan Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964. (Ychwanegu'r ddolen) Yng Nghymru, mae'n rhaid i'r holl Awdurdodau Lleol gydymffurfio â Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. (Ychwanegu'r ddolen)

Nid oes gennym ddyletswydd statudol na dewisol i ddarparu canolfannau adnoddau cymunedol.

## Yr Iaith Cymraeg (Cymru) Mesur 2011

Fel pob cyngor yng Nghymru, rhaid i Wrecsam gadw at safonau'r Gymraeg, a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r saesneg.

Gall canlyniad yr adolygiad hwn effeithio ar gyfleoedd i ddysgu, ymarfer a siarad Cymraeg. Gallai hefyd gael effaith ar fynediad i adnoddau Cymraeg mewn llyfrgelloedd a chanolfannau adnoddau.

Dywedwch wrthym os ydych yn meddwl y gallai'r newidiadau arfaethedig effeithio ar gyfleoedd iaith Gymraeg yn y fwrdeistref sirol, ac os oes gennych unrhyw syniadau ynglŷn â sut y gallwn leddfu'r effaith.

## Sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yw **19 Ionawr 2025.**

Rydym angen i chi gymryd rhan er mwyn i ni allu ail-lunio'r gwasanaethau hyn mewn modd a fydd yn diwallu eich anghenion ac yn arbed arian cyhoeddus.

Mae modd rhannu eich safbwyntiau drwy:

- Lenwi'r holiadur ar-lein
- Casglu copi papur o'ch llyfrgell leol neu ganolfan adnoddau cymunedol (cofiwch ei ddychwelyd erbyn 19 Ionawr 2025).
- Mynychu un o'n sioeau teithiol cymunedol.
- Cwblhau'r ffurflen mynegi diddordeb ar-lein www.wrecsam.gov.uk/cofrestrwcheichdiddordeb

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, eich bod angen cymorth i gymryd rhan neu angen copi o'r wybodaeth hon mewn fformat neu iaith arall, cysylltwch â ni

Ymgynghoriad ar Ganolfannau Adnoddau Cymunedol Llyfrgelloedd Wrecsam

Llyfrgell Wrecsam

Ffordd Rhosddu

Wrecsam

LL11 1AU

Ffôn: 01978 292090

library@wrexham.gov.uk

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Diolch i chi am ddarllen hwn.

Ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad a dadansoddi'r canlyniadau, byddwn yn cyflwyno argymhellion i Fwrdd Gweithredol y Cyngor i geisio penderfyniad.